# Ymgynghoriad ar newidiadau i fap prif afonydd Cymru - Penderfyniad

## Manylion y penderfyniad

Ar ôl cyfnod ymgynghori 6 wythnos, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â newid arfaethedig i fap prif afonydd Cymru drwy israddio rhan o Nant Morfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr]. Byddwn yn gwneud y newid hwn i fap prif afonydd Cymru o dan adran 194C o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd).

## Sut i weld y newid

Gellir gweld y map prif afonydd drwy'r ddolen a ganlyn, drwy ddewis y map prif afonydd o'r olwg fanwl: y map prif afonydd.

Mae'r newid arfaethedig i'r map prif afonydd yn Nant Morfa ym Mhen-y-bont ar Ogwr i'w weld yma yn y ddogfen ymgynghori.

## Sut i herio'r penderfyniad (apelio)

Os ydych yn anghytuno â'r penderfyniad hwn, gallwch gyflwyno apêl i Lywodraeth Cymru. Os hoffech gyflwyno apêl, gallwch ei hanfon at:

FloodCoastalRisk@gov.wales

Rhaid ichi gyflwyno'r apêl erbyn 28 Tachwedd 2019.

## Cyhoeddi'r newid i fap prif afonydd Cymru

Os na chyflwynir unrhyw apêl, bydd map prif afonydd Cymru yn cael ei newid yn ffurfiol ar 29 Tachwedd 2019.

Os cyflwynir unrhyw apêl, bydd y map prif afonydd yn parhau heb ei newid nes y penderfynir ar yr apêl.